# Newidiadau i'ch casgliadau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu

**O ddydd Llun 3 Mehefin 2024**



Sir Ddinbych yn ailgylchu
Denbighshire recycles

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

# Beth sy'n newid?

**O ddydd Llun 3 Mehefin 2024:**

1. bydd angen ichi **sortio eich eitemau ailgylchadwy 'sych' i wahanol gynwysyddion**. Rydym yn rhoi **system Trolibocs** newydd i chi **gyda thri bocs** ar gyfer eich:

   - **papur** (bocs uchaf gyda chaead glas),
   - **caniau, tuniau, erosolau a ffoil metel**, **poteli, potiau a thybiau plastig**, a **chartonau bwyd a diod** fel Tetra Pak (bocs canol gyda fflap coch), a
   - **photeli a jariau gwydr** (bocs gwaelod gyda fflap gwyrdd).



   Rydym hefyd yn rhoi **bag glas ailddefnyddiadwy** ichi ar gyfer eich **cardfwrdd**.




2. byddwn yn casglu cynnwys eich **Trolibocs** a'ch **bag glas ailddefnyddiadwy bob wythnos**.


3. rydym yn cyflwyno casgliadau newydd ar gyfer eich **eitemau trydanol bach** (tudalen 12), **batris o'r cartref** (tudalen 12), a **thecstilau** (tudalen 13).

4. byddwn yn casglu eich **gwastraff gweddilliol na ellir ei ailgylchu** o'ch **bin ar olwynion bob pedair wythnos**. Gallai'r bin ar olwynion a ddefnyddiwch ar gyfer eich gwastraff na ellir ei ailgylchu newid (tudalen 3).

5. **efallai bydd eich diwrnod casglu'n newid**. I wirio eich dyddiadau casglu newydd, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni o ddydd Mercher 15 Mai 2024 ymlaen.

# Beth sy'n newid?

| Os oes gennych ... | O ddydd Llun 3 Mehefin 2024... | Byddwn yn... |
|---|---|---|
| **fin ar olwynion 240 litr du** <br>a<br>**bin ar olwynion 240 litr glas**  | • **defnyddiwch y bin ar olwynion 240 litr sydd yn y cyflwr gorau** ar gyfer eich **gwastraff na ellir ei ailgylchu**.<br>• **gosodwch y sticer sydd wedi'i gynnwys gyda'r daflen hon i'r bin hwnnw**, i'w gwneud yn glir i ni pa un rydych am ei gadw.<br>• rhowch y gorau i ddefnyddio'r bin ar olwynion 240 litr arall a sicrhewch ei fod yn wag. | casglu eich bin ar olwynion 240 litr gwag rhwng dydd Llun 3 Mehefin a dydd Gwener 2 Awst 2024.<br>Byddwn naill ai'n ailddefnyddio neu'n ailgylchu'r bin hwn.<br> |
| **fin ar olwynion 140/180 litr du** <br>a<br>**bin ar olwynion 240 litr glas**  | • defnyddiwch eich **bin ar olwynion glas 240 litr** mwy ar gyfer eich **gwastraff na ellir ei ailgylchu**.<br>• **gosodwch y sticer sydd wedi'i gynnwys gyda'r daflen hon i'r bin hwnnw**, i'w gwneud yn glir i ni pa un rydych am ei gadw.<br>• rhowch y gorau i ddefnyddio'r bin ar olwynion 140/180 litr du a sicrhewch ei fod yn wag. | casglu eich bin ar olwynion du 140/180 litr gwag rhwng dydd Llun 3 Mehefin a dydd Gwener 2 Awst 2024.<br>Byddwn naill ai'n ailddefnyddio neu'n ailgylchu'r bin hwn.<br> |



Rhowch y sticer sydd wedi'i amgáu gyda'r lyfryn hon i'r bin ar olwynion yr ydych yn ei gadw ar gyfer eich gwastraff na ellir ei ailgylchu.

# Beth sy'n aros yr un fath?

- Byddwn yn parhau i **gasglu eich gwastraff bwyd** o'ch **cadi oren bob wythnos**, ynghyd â'ch ailgylchu 'sych'.
- Os ydych wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth, byddwn yn casglu eich **nwyddau hylendid amsugnol (AHP)** – fel clytiau (napis) ac eitemau anymataliaeth – o'ch **cadi du gyda chaead piws bob wythnos**.
- Os ydych wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth taladwy hwn, byddwn yn parhau i **gasglu eich gwastraff gardd** o'ch **bin ar olwynion gwyrdd bob pythefnos**.

# Pam rydym yn gwneud y newidiadau hyn.

Gyda chyfradd ailgylchu genedlaethol o fwy na 65%, Cymru yw trydedd genedl ailgylchu orau'r byd, ond mae angen inni wneud mwy...

- ✓ O gasglu eich ailgylchu mewn cynwysyddion ar wahân, wedi'u sortio'n barod, bydd yn gwella ansawdd y deunyddiau a gasglwn gennych. Mae hyn yn golygu y bydd mwy ohono'n aros yn y Deyrnas Unedig i gael ei ailgylchu a'i droi'n nwyddau newydd – yn hytrach na chael ei anfon dramor – sy'n lleihau ein hallyriadau carbon ac yn helpu atal newid yn yr hinsawdd.
- ✓ O gyflwyno casgliadau newydd ar gyfer eich eitemau trydanol bach, batris o'r cartref a thecstilau, bydd yn ei gwneud yn haws fyth i chi ailgylchu mwy o'ch gwastraff o gartref.
- ✓ Er bod y rhan fwyaf o bobl yn Sir Ddinbych yn ailgylchu, gellid yn hawdd fod wedi ailgylchu tua 33% o'r hyn sy'n cael ei roi mewn biniau ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu. O gynyddu pa mor aml rydym yn casglu eich ailgylchu, cyflwyno casgliadau ar gyfer deunyddiau ailgylchadwy ychwanegol, a lleihau amlder casglu eich gwastraff na ellir ei ailgylchu, bydd yn annog mwy o drigolion i sortio eu gwastraff ac ailgylchu cymaint ag y gallant o gartref.
- ✓ Mae'r newidiadau yn cyd-fynd â'r dull a argymhellir ar gyfer yr holl gasgliadau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu ledled Cymru a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn ein helpu i gyrraedd y targed o ailgylchu 70% o'n holl wastraff erbyn 2025. Rydym yn ailgylchu bron i 66% o'n gwastraff ar hyn o bryd (2022/23).
- ✓ Mae sawl cyngor lleol yng Nghymru eisoes wedi cyflwyno'r newidiadau hyn ac maent wedi gweld cynnydd yn swm ac ansawdd yr ailgylchu a gaiff ei gasglu yn yr ardaloedd hynny.

# Sut dylwn gyflwyno fy ailgylchu a fy ngwastraff na ellir ei ailgylchu i chi ei gasglu?

1. Rhowch yr eitemau cywir yn y cynwysyddion cywir.

2. Clymwch fagiau leinio eich cadi gwastraff bwyd a'ch sachau untro'n sownd.

3. Caewch y fflapiau a'r caeadau ar eich bag, biniau, bocsys, a chadis, i atal eich ailgylchu a'ch gwastraff na ellir ei ailgylchu rhag dianc ac i gadw eu cynnwys mor sych â phosibl.

4. Defnyddiwch y bag, bin, bocsys, cadis, bagiau leinio cadis a sachau a ddarparwyd gan y Cyngor yn unig ar gyfer eich ailgylchu. Peidiwch â defnyddio unrhyw fath arall o gynhwysydd.

5. Rhowch eich cynwysyddion yn eich man casglu cyn 6:30am ar eich diwrnod casglu.

6. Casglwch eich cynwysyddion o'ch man casglu cyn gynted â phosibl wedi i ni gasglu eu cynnwys.



**Eisiau gwirio eich dyddiadau casglu newydd?**
Ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni o ddydd Mercher 15 Mai 2024 ymlaen.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Gwastraff bwyd



**Cadi oren**



### ✔ Ie, plîs

- ✔ Hen fagiau te a gwaddodion coffi
- ✔ Plisg wyau
- ✔ Crwyn ffrwythau a chrafion llysiau
- ✔ Cig a physgod amrwd ac wedi'i goginio, yn cynnwys esgyrn a phlisg
- ✔ Crafion plât
- ✔ Bwyd dros ben na ellir ei storio'n ddiogel i'w fwyta'n nes ymlaen
- ✔ Bwyd nad yw'n ddiogel i'w fwyta mwyach
- ✔ Bwyd anifeiliaid anwes

### ✘ Dim diolch

- ✘ Deunydd pacio o unrhyw fath
- ✘ Hylifau fel llaeth *
- ✘ Olewau neu fraster hylifol **
- ✘ Unrhyw ddeunydd nad yw'n wastraff bwyd

* Cewch arllwys symiau bach o fwyd hylifol neu ddiodydd i lawr y sinc, yn ddelfrydol gydag ychydig o ddŵr i sicrhau bod y gwastraff yn llifo i lawr yn hawdd, heb beri i'r pibelli flocio.

** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Parc Ailgylchu a Gwastraff lleol mewn cynhwysydd addas.

Os bydd angen ichi gael gwared ag unrhyw fraster soled neu rannol hylifol, gallwch roi'r rhain yn eich bin ar olwynion ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

**Cofiwch, os gwelwch yn dda:**

- os bydd angen cyflenwad newydd o fagiau leinio cadi gwastraff bwyd arnoch, gallwch naill ai glymu'r 'tag ail-archebu' (sy'n dod gyda phob rholyn o fagiau leinio) ar handlen eich cadi, neu gallwch glymu bag leinio heb ei ddefnyddio ar eich handlen, ac fe wnawn adael cyflenwad newydd o fagiau leinio ar ben, neu wrth ymyl, eich cadi. Fel arall, cewch gasglu cyflenwad newydd o fagiau leinio o'ch Siop Un Alwad agosaf

Rydym yn casglu eich **gwastraff bwyd** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Papur



**Trolibocs**
**Bocs uchaf gyda chaead glas**




### ✔ Ie, plîs

- ✔ Llythyrau
- ✔ Amlenni, gyda ffenestri neu hebddynt
- ✔ Cylchgronau
- ✔ Papurau newydd
- ✔ Pamffledi a chatalogau
- ✔ Papur argraffydd
- ✔ Symiau bach o bapur wedi'i rwygo'n fân, fel derbynebau a biliau'r cartref – rhowch hwn mewn bag plastig untro a'i glymu, cyn ei roi yn eich bocs

### Cofiwch, os gwelwch yn dda:

- cadwch bapur yn sych

### ✘ Dim diolch

- ✘ Papur cegin, tyweli papur, a hancesi papur *
- ✘ Cardiau crafu *
- ✘ Papurau gludiog, fel nodiadau 'Post-It', labeli gludiog a thâp papur *
- ✘ Papur wal *
- ✘ Papur lapio *
- ✘ Papur gyda bwyd, olew, saim neu baent arno *
- ✘ Ffilm blastig, fel y math a gaiff ei ddefnyddio i lapio cylchgronau (gweler tudalen 17)
- ✘ Papur gwlyb o unrhyw fath *

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin ar olwynion ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

Rydym yn casglu eich **papur** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Metelau, plastigion a chartonau





**Trolibocs**
**Bocs canol gyda fflap coch**

- **Caniau, tuniau, erosolau a ffoil metel**
- **Poteli, potiau a thybiau plastig**
- **Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak**

### ✔ Ie, plîs

**Metelau**

- ✔ Caniau diod, fel y rhai a ddefnyddir i ddal cwrw a diodydd meddal
- ✔ Tuniau bwyd, fel y rhai a ddefnyddir i ddal ffa a chawl
- ✔ Tuniau bisgedi a siocled metel a'u caeadau
- ✔ Erosolau gwag
- ✔ Cloriau a thybiau ffoil glân

**Cartonau**

- ✔ Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak, a ddefnyddir i ddal sudd ffrwythau, llaeth a chawl

### ✘ Dim diolch

**Metelau**

- ✘ Pecynnau creision *
- ✘ Deunydd lapio fferins ffoil *
- ✘ Pecynnau neu 'godenni' ffoil wedi'i lamineiddio sy'n dal bwyd a diod, fel y rhai a ddefnyddir ar gyfer coffi, sudd, reis, bwyd babanod neu fwyd anifeiliaid anwes *
- ✘ E-sigaréts neu binnau fêp **

* Os bydd angen ichi gael gwared ar yr eitemau hyn, gweler tudalen 17.

** Dylech gael gwared â'r rhain fel eitemau trydanol bach (gweler tudalen 12).

**Cofiwch, os gwelwch yn dda:**

- tynnwch unrhyw bympiau oddi ar boteli nwyddau ymolchi a'u rhoi yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu
- tynnwch unrhyw ffilm blastig neu badiau amsugnol a'u rhoi yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu
- gwagiwch a rinsiwch eitemau metel a phlastig
- gwasgwch eitemau metel a phlastig yn ddiogel i'w gwneud yn llai, os yw'n bosibl
- sicrhewch fod erosolau'n wag
- sicrhewch fod ffoil yn lân

# Beth sy'n mynd i ble?

## Metelau, plastigion a chartonau – parhad...

### ✔ Ie, plîs

**Plastigion**

- ✔ Poteli gofal croen a nwyddau ymolchi plastig, fel y rhai a ddefnyddir i ddal sebon dwylo, sebon corff, gel cawod, siampŵ, cyflyrydd gwallt a swigod bath
- ✔ Poteli nwyddau glanhau plastig, fel y rhai sy'n dal cannydd, hylif golchi llestri, glanhawr dillad a chyflyrydd ffabrig, a thybiau sy'n dal capsiwlau a thabledi golchi dillad
- ✔ Poteli diod plastig, fel y rhai sy'n dal diodydd ysgafn, llaeth a dŵr
- ✔ Potiau plastig, fel potiau hufen ac iogwrt
- ✔ Tybiau plastig, fel tybiau menyn, marjarîn, siocled, fferins a hufen iâ
- ✔ Tybiau plastig, fel y rhai sy'n dal teisenni, myffins, a chig
- ✔ Potiau plastig, fel y rhai sy'n dal ffrwythau a llysiau
- ✔ Tybiau tecawê plastig a'u caeadau
- ✔ Poteli plastig o'ch garej, tŷ gwydr neu sied, fel poteli bwyd planhigion nad yw'n wenwynig

### ✘ Dim diolch

**Plastigion**

- ✘ Bagiau neu ddeunydd lapio plastig (gweler tudalen 17)
- ✘ Poteli, tybiau a photiau plastig du neu frown ***
- ✘ Y rhwydi plastig a ddefnyddir i ddal ffrwythau a llysiau ***
- ✘ Bagiau bwyd sych cathod neu gŵn ***
- ✘ Bagiau compost neu bridd i'r ardd ***
- ✘ Pecynnau swigod plastig, hynny yw, y math sy'n dal tabledi neu gapsiwlau ***
- ✘ Brwshys dannedd neu diwbiau past dannedd ***
- ✘ Raseli plastig ***
- ✘ Plastigion caled, fel cadeiriau o'r ardd, teganau plant, biniau cegin, powlenni golchi llestri, potiau blodau neu gynwysyddion Tupperware ****
- ✘ Tanwyr ****
- ✘ Caniau nwy ****
- ✘ E-sigaréts neu binnau fêp *****

*** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

**** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Parc Ailgylchu a Gwastraff lleol.

***** Dylech gael gwared â'r rhain fel eitemau trydanol bach (gweler tudalen 12).

Rydym yn casglu eich **metelau, plastigion a chartonau** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Poteli a jariau gwydr



**Trolibocs**
**Bocs gwaelod gyda fflap gwyrdd**




### ✔ Ie, plîs

- ✔ Poteli gwydr, fel y rhai a ddefnyddir ar gyfer cwrw, gwin a diodydd meddal
- ✔ Jariau gwydr, fel y rhai sy'n dal bwyd babanod a sawsiau
- ✔ Poteli a jariau ar gyfer pethau heblaw bwyd a diod, fel y rhai a ddefnyddir i ddal persawr, persawr eillio ac eli wyneb

### Cofiwch, os gwelwch yn dda:

- gwagiwch a rinsiwch eitemau gwydr
- tynnwch unrhyw gaeadau metel neu blastig a'u rhoi ym mocs canol eich Trolibocs ar gyfer metelau, plastigion a chartonau cymysg

### ✘ Dim diolch

- ✘ Eitemau ceramig neu Tsieina *
- ✘ Gwydrau yfed *
- ✘ Gwydr fflat, fel cwareli ffenestri *
- ✘ Drychau *
- ✘ Bylbiau golau *
- ✘ Llestri coginio gwydr, fel Pyrex *
- ✘ Platiau microdon *
- ✘ Fasys *
- ✘ Poteli farnais ewinedd *
- ✘ Gwydr wedi torri *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Parc Ailgylchu a Gwastraff lleol neu rhowch nhw yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu. Lapiwch yr eitemau hyn yn ddiogel mewn hen bapur newydd neu bapur cegin, neu eu bagio'n ddwbl, i sicrhau na chaiff ein criwiau casglu eu brifo wrth eu casglu.

Rydym yn casglu eich **poteli a jariau gwydr** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Cardfwrdd



**Bag glas**




### ✔ Ie, plîs

- ✔ Bocsys cardfwrdd, fel y rhai sy'n dal grawnfwydydd, teisenni, tabledi peiriant golchi llestri, esgidiau, hancesi papur, nwyddau ymolchi a phast dannedd
- ✔ Tiwbiau papur toiled
- ✔ Cartonau wyau
- ✔ Llewys cardfwrdd a ddefnyddir i bacio bwydydd yn cynnwys prydau parod a phecynnau amlbecyn
- ✔ Cardiau cyfarch os nad oes bathodynnau, rhubanau, ffoil neu lwch llachar arnynt
- ✔ Cefnau cardfwrdd oddi ar becynnau batris a brwshys dannedd
- ✔ Bocsys nwyddau danfoniadau ar-lein, ac amlenni cardfwrdd
- ✔ Papur brown a llwyd

### ✘ Dim diolch

- ✘ Cardfwrdd gyda bwyd, olew, saim neu baent arno, fel bocsys pizza *
- ✘ Cardiau cyfarch sydd â bathodynnau, rhubanau, ffoil neu lwch llachar na ellir eu tynnu arnynt *
- ✘ Papur lapio *
- ✘ Polystyren *
- ✘ Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak, a ddefnyddir i ddal sudd ffrwythau, llaeth neu gawl **

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

** Rhowch yr eitemau hyn ym mocs canol eich Trolibocs ar gyfer metelau, plastigion a chartonau cymysg.

**Cofiwch, os gwelwch yn dda:**

- torrwch a fflatiwch gardfwrdd i wneud yn siŵr ei fod yn ffitio yn eich bag
- cadwch gardfwrdd yn sych

Rydym yn casglu eich **cardfwrdd** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Eitemau trydanol bach



**Rhowch eich eitemau'n rhydd ar ben eich Trolibocs.**



### Ie, plîs

- ✔ Tegellau
- ✔ Sychwyr gwallt
- ✔ Tostwyr
- ✔ Tŵls trydan
- ✔ Radios
- ✔ Heyrn smwddio
- ✔ E-sigaréts a phinnau fêp – rhowch y rhain mewn bag plastig untro, ei glymu'n dynn, yna ei roi ar ben eich Trolibocs

### Dim diolch

- ✘ Horsys dillad trydanol *
- ✘ Setiau teledu *
- ✘ Sugnwyr llwch *
- ✘ Microdonau *
- ✘ Oergelloedd neu rewgelloedd *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Parc Ailgylchu a Gwastraff lleol.

**Cofiwch, os gwelwch yn dda:**

- ni ddylai'r eitemau fod yn fwy na thegell neu dostiwr

## Batris o'r cartref





**Clipiwch y cwdyn pinc ailddefnyddiadwy ar handlen eich Trolibocs.**

### Ie, plîs

- ✔ Batris o'r cartref fel rhai AAA, AA, B, C, D, DD a 9V

### Dim diolch

- ✘ Batris 'botwm' lithiwm-ïon, fel y rhai a ddefnyddir mewn cyfrifianellau, dyfeisiau cymorth clyw neu watshis *
- ✘ Batris y gellir eu gwefru o liniaduron, ffonau symudol, tŵls trydan neu sugnwyr llwch *
- ✘ Batris ceir *
- ✘ Teclynnau gwefru batris *
- ✘ E-sigaréts neu binnau fêp **

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Parc Ailgylchu a Gwastraff lleol.

** Dylech gael gwared â'r rhain fel eitemau trydanol bach (gweler y golofn i'r chwith).

Rydym yn casglu eich **eitemau trydanol bach** a **batris o'r cartref bob wythnos.**
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Tecstilau



**Sach wen untro**



### ✔ Ie, plîs

- ✔ Dillad oedolion a phlant
- ✔ Esgidiau
- ✔ Bagiau llaw
- ✔ Beltiau
- ✔ Cyrtens
- ✔ Dillad gwely

### ✘ Dim diolch

- ✘ Duvets neu gwiltiau *
- ✘ Gobennydd *
- ✘ Sachau cysgu *
- ✘ Wadin tu mewn clustogau *
- ✘ Carpedi *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Parc Ailgylchu a Gwastraff lleol.

### Cofiwch, os gwelwch yn dda:

- sicrhewch fod tecstilau'n lân a sych, ac esgidiau mewn parau
- defnyddiwch y sachau gwyn untro a ddarperir gan ein partner, Co-Options Social Enterprise yn unig
- os bydd angen archebu cyflenwad newydd o sachau gwyn arnoch, gallwch ebostio Co-Options ar office@cooptions.co.uk neu eu ffonio ar 01745 332300
- mae'r gwasanaeth casgliadau newydd hwn yn un dewisol; cewch fynd â dillad dieisiau i'ch Parc Ailgylchu a Gwastraff lleol, neu unrhyw fan arall dilys, o hyd

Bydd Co-Options yn casglu **tecstilau** o'ch cartref **bob pedair wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

I gael gwybod pryd a sut y gallwch gofrestru ar gyfer y gwasanaeth casgliadau am ddim hwn, ewch i **www.sirddinbych.gov.uk/nwyddau hylendid amsugnol** neu cysylltwch â ni

## Nwyddau hylendid amsugnol



**Cadi du gyda chaead piws a sachau piws untro**



### ✔ Ie, plîs

- ✔ Clytiau (napis), bagiau clytiau a weips
- ✔ Padelli gwely a phadiau leinio tafladwy
- ✔ Padiau anymataliaeth
- ✔ Padiau gwelyau a chadeiriau
- ✔ Bagiau colostomi a stoma
- ✔ Bagiau cathetr a photeli wrin
- ✔ Menig plastig a ffedogau tafladwy

**Cofiwch, os gwelwch yn dda:**

- defnyddiwch y sachau piws untro a'r cadi du gyda chaead piws a ddarperir gan y Cyngor
- os bydd angen archebu cyflenwad newydd o sachau piws arnoch, clymwch y 'tag ail-archebu' ar handlen eich cadi, yna fe wnawn ni adael cyflenwad newydd o sachau ar ben, neu wrth ymyl, eich cadi. Fel arall, cysylltwch â ni

### ✘ Dim diolch

- ✘ Nwyddau hylendid, fel padiau leinio, tamponau neu dyweli mislif **
- ✘ Plasteri neu rwymau **
- ✘ Gwastraff clinigol, fel gorchuddion neu rwymau sydd wedi'u halogi â gwaed, nodwyddau, chwistrelli a nwyddau miniog eraill ***
- ✘ Cyfog *
- ✘ Baw pobl *
- ✘ Baw anifeiliaid **

* Dylech daflu'r gwastraff hwn i lawr eich toiled.

** Bagiwch yr eitemau hyn ac yna eu rhoi yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

*** Nid yw Cyngor Sir Ddinbych yn darparu casgliad 'nwyddau miniog' ar gyfer yr eitemau hyn. Cysylltwch â'ch bwrdd iechyd lleol, tîm nyrsys ardal neu GIG 111 am gyngor.

Rydym yn casglu eich **nwyddau hylendid amsugnol** o'ch cartref **bob wythnos**, os ydych wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Gwastraff gardd

**Cysylltwch â ni i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth casgliadau taladwy hwn**



**Bin ar olwynion gwyrdd**



### ✔ Ie, plîs

- ✔ Gwair, dail a'r rhan fwyaf o chwyn
- ✔ Planhigion a blodau
- ✔ Torion gwrychoedd a thocion llwyni

### Cofiwch, os gwelwch yn dda:

- cewch fynd â gwastraff gardd i'ch Parc Ailgylchu a Gwastraff am ddim drwy gydol y flwyddyn

### ✘ Dim diolch

- ✘ Pridd, cerrig neu foncyffion **
- ✘ Chwyn ymledol, fel Canclwm Japan ***
- ✘ Unrhyw ddodrefn o'r ardd, boed nhw'n blastig neu bren **
- ✘ Baw anifeiliaid *
- ✘ Deunydd gwely anifeiliaid, fel gwair, gwellt neu siafins pren *

* Bagiwch yr eitemau hyn ac yna eu rhoi yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Parc Ailgylchu a Gwastraff lleol.

*** Trefnwch i gontractwr arbenigol gasglu hwn a chael gwared arno'n ddiogel.

Rydym yn casglu eich **gwastraff gardd** o'ch cartref **bob pythefnos**, os ydych wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth taladwy hwn. I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Gwastraff na ellir ei ailgylchu



Bin ar olwynion du NEU fin ar olwynion glas



## ✔ Ie, plîs

- ✔ Poteli, potiau a thybiau plastig du a brown
- ✔ Clytiau (napis) (gweler tudalen 14)
- ✔ Weips gwlyb
- ✔ Polystyren
- ✔ Yr holl wastraff o'r cartref sydd dros ben na ellir ei ailgylchu *

* Os bydd angen ichi gael gwared ar unrhyw **fagiau a deunydd lapio plastig**, gweler tudalen 17 i ddarganfod sut gallwch ailgylchu'r rhain mewn mannau ailgylchu 'oddi cartref', fel archfarchnadoedd.

## ✘ Dim diolch

- ✘ Unrhyw eitemau y gellir eu hailgylchu o gartref gan ddefnyddio'r cynwysyddion a roddwyd ichi gan y Cyngor, neu'r rhai y gellir eu hailgylchu mewn Parc Ailgylchu a Gwastraff

## Cofiwch, os gwelwch yn dda:

- peidiwch â rhoi gwastraff ychwanegol wrth ymyl, neu ar ben, eich bin ar olwynion. Yr enw ar hyn yw 'gwastraff ochr'. Nid ydym yn casglu 'gwastraff ochr' a gallech orfod talu dirwy

Byddwn yn casglu eich **gwastraff na ellir ei ailgylchu** o'ch cartref **bob pedair wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Beth ddylwn ei wneud gyda bagiau a deunydd lapio plastig?

Os bydd angen ichi gael gwared ar **fagiau neu ddeunydd lapio plastig**, caiff rhai o'r eitemau hyn eu derbyn mewn **mannau ailgylchu 'oddi cartref'** mewn lleoliadau fel archfarchnadoedd.

Ewch i **cymruynailgylchu.org.uk** i ddod o hyd i'ch cyfleuster agosaf.

Mae'n bosibl bydd y mathau o eitemau a dderbynnir yn amrywio o un lleoliad i'r llall, felly dilynwch y canllawiau a roddir gan y sefydliad sy'n rheoli'r man ailgylchu, os gwelwch yn dda.

Os na allwch fynd â'r eitemau hyn i un o'r cyfleusterau hyn a bod angen ichi gael gwared arnynt gartref, yna rhowch nhw yn eich **bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu**.




**Bagiau plastig a Bagiau am Oes**




**Bagiau ffrwythau, salad a llysiau wedi'u pacio'n barod**



**Bagiau plastig tenau ar gyfer ffrwythau, salad a llysiau rhydd**



**Ffilm, fel haenen lynu, caeadau prydau parod neu gaeadau potiau iogwrt**



**Bagiau rhewgell**




**Bagiau bwyd rhewgell**




**Bagiau pasta a reis**





**Bagiau bara**



**Bagiau lapio cylchgronau a phapurau newydd**




**Deunydd lapio pecynnau amlbecyn a'r dolenni plastig oddi ar becynnau amlbecyn o boteli a chaniau**



**Bagiau leinio bocsys grawnfwyd**




**Deunydd lapio o becynnau papur toiled a phapur cegin**



**Bagiau sych lanhawyr neu fagiau sy'n gorchuddio dillad newydd**




**Bagiau parseli a swigod lapio**



**Tâp pacio a thâp gludiog**




**Pecynnau creision a bisgedi**



**Pecynnau neu 'godenni' ffoil wedi'i lamineiddio fel y rhai a ddefnyddir ar gyfer coffi, sudd, reis, bwyd babanod neu fwyd anifeiliaid anwes**

**Peidiwch â rhoi bagiau a deunydd lapio plastig yn eich Trolibocs ar gyfer metelau, plastigion a chartonau cymysg.**

# Cwestiynau cyffredin

## Sut dylwn i storio fy nghynwysyddion newydd?

Gallwch ddewis storio eich cynwysyddion newydd y tu allan, yn eich gardd, garej neu sied gardd, neu yn eich cartref.

Mae croeso ichi nodi enw neu rif eich tŷ ar eich cynwysyddion newydd gan ddefnyddio marciwr, a fydd yn eich helpu i nodi pa gynwysyddion yw'ch rhai chi unwaith y byddwn wedi casglu eu cynnwys.

## Beth ddylwn ei wneud gyda fy hen fin ar olwynion?

O ddydd Llun 3 Mehefin 2024, efallai bydd y bin ar olwynion a ddefnyddiwch ar gyfer eich gwastraff na ellir ei ailgylchu yn newid. Trowch i dudalen 3 i gael gwybod pa fin y dylech ei ddefnyddio.

O'r dyddiad hwn, sicrhewch fod eich bin ar olwynion arall yn wag. Byddwn yn ei gasglu o'r tu allan i'ch cartref rhwng dydd Llun 3 Mehefin a dydd Gwener 2 Awst 2024, a byddwn naill ai'n ei ailddefnyddio neu'n ei ailgylchu. Byddwn yn cadarnhau'r dyddiad hwn gyda chi yn nes at yr amser.

## A allaf i gael cynwysyddion ailgylchu ychwanegol?

Gallwch. Os byddwch yn teimlo, ar ôl rhai wythnosau o ddefnyddio'r gwasanaeth newydd, bod angen cynwysyddion ychwanegol arnoch ar gyfer eich ailgylchu, ewch i'n gwefan i ddarganfod sut gallwch archebu'r eitemau hyn am ddim.

Cofiwch arbed lle yn eich cynwysyddion drwy wasgu neu fflatio eich eitemau metel, plastig a chartonau pan fo'n bosibl, a thorri cardfwrdd, i sicrhau eu bod yn ffitio yn eich cynwysyddion.

## Sut dylwn i sortio fy ailgylchu yn y cartref?

Chi piau'r dewis o ran sut i reoli eich ailgylchu yn eich cartref, a dewis i'r unigolyn fydd hwn. Os hoffech unrhyw gyngor neu help i sortio eich ailgylchu, cysylltwch â ni.

## Mae angen help arnaf i sortio ac ailgylchu fy ngwastraff. A wnewch chi fy helpu, plîs?

Mae gennym dîm o Swyddogion Ailgylchu a gallant:

- roi cyngor ac arweiniad ichi am ein holl wasanaethau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu, ac
- eich cefnogi i ailgylchu'r gorau gallwch chi a lleihau eich gwastraff na ellir ei ailgylchu.

Cysylltwch â ni i drefnu ymweliad cartref gan un o'n Swyddogion Ailgylchu.

# Cwestiynau cyffredin

## Ni allaf roi fy ailgylchu a fy ngwastraff na ellir ei ailgylchu allan i chi ei gasglu. Allwch chi plîs fy helpu gyda hyn?

Os ydych chi'n methu rhoi eich ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu allan i ni ei gasglu, boed hynny dros dro neu'n barhaol, oherwydd bod eich symudedd wedi'i gyfyngu arno, ac nad oes unrhyw un arall i'ch helpu, cewch gysylltu â ni i wneud cais am 'gasgliad â chymorth', ac fe wnawn ni asesu eich sefyllfa. 'Casgliad â chymorth' yw pan fo'n criwiau yn casglu eich ailgylchu a'ch gwastraff na ellir ei ailgylchu o fan casglu a gytunwyd arno sy'n gyfleus ac yn hawdd ichi ei gyrraedd.

## Rwy'n derbyn 'casgliad â chymorth' ar hyn o bryd. A fydd hyn yn parhau?

Bydd. Os ydych chi'n derbyn 'casgliad â chymorth' ar hyn o bryd, byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn ichi. Nid oes angen ichi gofrestru eto ar gyfer y gwasanaeth hwn.

## Beth ddylwn ei wneud gyda gwastraff swmpus?

Os oes gennych eitem gartref sy'n rhy fawr i chi fynd â hi i'ch Parc Ailgylchu a Gwastraff lleol, gallwch drefnu casgliad eitem swmpus, sy'n golygu y byddwn yn casglu'r eitem hon o'ch cartref am ffi fach.

Am wybodaeth neu i drefnu gwasanaeth casglu eitem swmpus, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Beth arall allaf ei ailgylchu?

I gael gwybod pa wastraff arall o'r cartref y gallwch ei ailgylchu gartref neu yn eich Parc Ailgylchu a Gwastraff lleol, defnyddiwch ein canllaw A i Y defnyddiol. Mae'n caniatáu ichi chwilio am eitem a byddwn yn dweud wrthych sut i ailgylchu neu gael gwared ar bethau yn gywir.


Gallwch ddod o hyd i'n 'Canllaw Ailgylchu A i Y' ar ein gwefan
**www.sirddinbych.gov.uk/ailgylchu**

## Beth sy'n digwydd i fy ailgylchu unwaith y byddwch wedi'i gasglu?

I ddarganfod beth sy'n digwydd i'ch ailgylchu unwaith y byddwn wedi'i gasglu, ac i ble mae'n mynd, ewch i
**www.myrecyclingwales.org.uk/cy**

I ddarganfod beth mae'ch ailgylchu'n cael ei ddefnyddio i'w wneud, ewch i
**www.cymruynailgylchu.org.uk**

## A ydych chi wedi tanysgrifio i dderbyn ein e-gylchlythyr?



Rydym yn cynnwys y newyddion diweddaraf a diweddariadau ynghylch ein gwasanaethau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu yn Llais y Sir, ein e-gylchlythyr ar gyfer trigolion.

I danysgrifio i dderbyn Llais y Sir, sganiwch y cod QR neu ewch i
**www.sirddinbych.gov.uk/llais-y-sir**

# Cwestiynau cyffredin

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn rhoi'r eitemau anghywir yn fy nghynwysyddion ailgylchu mewn camgymeriad?

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi'r eitemau cywir yn y cynwysyddion cywir, ac nad yw eich cynwysyddion ailgylchu'n cynnwys deunyddiau na ellir eu hailgylchu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall unrhyw un wneud camgymeriad.

Os byddwch yn rhoi cynhwysydd allan sy'n rhy llawn neu'n rhy drwm, neu sy'n cynnwys eitemau na ddylent fod ynddo, bydd ein criwiau'n gosod tag neu sticer arno'n gofyn i chi sortio ei gynnwys allan yn gywir mewn pryd ar gyfer eich casgliad nesaf.

Os, ar ôl edrych ar y daflen hon, y byddwch yn ansicr ble i roi rhai eitemau, ewch i edrych dros ein 'Canllaw Ailgylchu A i Y' ar-lein, sy'n caniatáu ichi chwilio am eitem a byddwn yn dweud wrthych sut i'w ailgylchu neu gael gwared arno'n gywir. Os byddwch dal yn ansicr sut i gael gwared ar rai eitemau'n gywir, cysylltwch â ni.

Os byddwch yn sylwi eich bod wedi rhoi rhywbeth yn y cynhwysydd anghywir ar ôl i ni gasglu eich ailgylchu, peidiwch â phoeni – ond ceisiwch gofio ei gael yn iawn y tro nesaf. Cofiwch hefyd dynnu'r tag neu sticer oddi ar eich cynhwysydd, yna ei roi yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

## Beth fydd yn digwydd os nad ydw i'n ailgylchu fy ngwastraff?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn Sir Ddinbych yn ailgylchu cymaint ag y gallant – diolch i'r rhai ohonoch sy'n chwarae eich rhan. Ond yn anffodus, mae rhai pobl nad ydynt yn gwneud popeth y gallant, ac mae'n bosibl y bydd rhaid iddynt dalu cosb benodedig o £100 neu fynd i'r llys.

## Pam rydych chi wedi casglu rhywfaint o fy ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu, ond nid popeth?

Er ein bod yn casglu eich ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu ar yr un diwrnod, rydym yn eu casglu mewn cerbydau ar wahân, ar adegau gwahanol rhwng 6:30am a 3pm. Peidiwch â rhoi gwybod i ni am unrhyw gasgliadau a fethwyd tan ar ôl 5pm, ac edrychwch ar ein gwefan neu'n cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth am unrhyw amhariad ar ein gwasanaethau casglu.

A chofiwch, er ein bod yn casglu eich ailgylchu bob wythnos, rydym yn casglu eich gwastraff gardd bob pythefnos (os ydych wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn), a'ch tecstilau a gwastraff na ellir ei ailgylchu bob pedair wythnos. I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan.

### Mae eich ailgylchu'n gwneud gwahaniaeth MAWR yn Sir Ddinbych.

Diolch i chi am barhau i wneud y peth iawn ac am chwarae eich rhan dros yr amgylchedd, drwy sortio eich gwastraff ac ailgylchu.

**www.sirddinbych.gov.uk/ailgylchu**

**01824 706000 (Dydd Llun i ddydd Gwener, o 8.30am i 5pm)**

**cyngorsirddinbych**

**@CyngorSDd**

Argraffwyd ar bapur 100% eilgylch